| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 24 Hydref 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Adroddiad Cyllid (Medi 2023/24) |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi manylion cyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2023/24. Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Diben yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2023/24.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.

3.2 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r cynnig i osod cyfleusterau storio halen newydd yn nepo Parc Cinmel ym Modelwyddan, fel y nodir yn adran 6.9 ac Atodiad 5.

3.3 Bod yr Aelodau'n nodi'r defnydd o arian wrth gefn y Rhaglen Gyfalaf i dalu am y gorwariant a ragwelir ar gynllun atgyweirio'r Wal yn Ngardd yr Arglwydd yn Nant Clwyd y Dre fel y nodir yn adran 6.10.

# 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw’r Cyngor ar gyfer 2023/24 fel y manylir yn ei chylch yn Atodiad 1. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £250.793 miliwn (£233.696 miliwn yn 22/23). Rhagwelir mai’r sefyllfa o ran cyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol fydd gorwariant o £3.446m (£3.119m o orwariant y mis diwethaf), wedi’i gynyddu y mis hwn yn bennaf oherwydd pwysau yng nghyllidebau Gofal Cymdeithasol a Thai a’r Amgylchedd wedi’i osod yn erbyn arbedion yng nghyllideb Ariannu Cyfalaf. Bydd angen i wasanaethau adolygu eu holl wariant ac incwm er mwyn lliniaru ar effaith y gorwariant cyffredinol. Gellir defnyddio’r gronfa wrth gefn ar gyfer lliniaru ar y gyllideb i dalu am y gorwariant eleni, ond bydd hynny ar draul yr adnoddau a fydd ar gael wrth ymateb i wasgfeydd annisgwyl mewn blynyddoedd i ddod. Esbonnir cefndir y risgiau a’r rhagdybiaethau cyfredol sy’n sail i'r asesiad hwn yn Adran 6 ac Atodiad 2.

Wrth bennu cyllideb 2023/24 bu gofyn am ganfod gwerth £8.172 miliwn o arbedion ac arbedion effeithlonrwydd ar wasanaethau a chytuno arnynt, fel y nodir isod:

- Gostwng y Gyllideb Ariannu Cyfalaf a’r gyllideb arian at raid Gorfforaethol (£2.267 miliwn)
- Effaith yr adolygiad actiwaraidd teirblwydd o Gronfa Bensiynau Clwyd (£3.828 miliwn)
- Arbedion yn sgil dod â’r gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau’n ôl yn fewnol (£0.300 miliwn)
- Chwyddo Ffioedd a Thaliadau yn unol â’r polisi Ffioedd a Thaliadau y cytunwyd arno (£0.423 miliwn)
- Arbedion effeithlonrwydd mewn gweithrediadau (£0.538 miliwn) wedi’u nodi’n bennaf gan wasanaethau yn ystod y flwyddyn ac wedi’u dirprwyo i Benaethiaid Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol.
- Gofynnwyd hefyd i ysgolion gynllunio ar gyfer arbedion effeithlonrwydd o 1% (£0.816 miliwn).

Tybir bod yr arbedion corfforaethol a gweithredol, a’r cynnydd mewn ffioedd a thaliadau wedi’u cyflawni.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol yn sylfaen i waith ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Manylir ynghylch y cyd-destun arwyddocaol mewn gwasanaethau sy’n egluro’r amrywiadau a’r risgiau yn Atodiad 2, ond dylid nodi’r materion canlynol hefyd:

**6.1 Cyllidebau Corfforaethol** – er y rhagwelir ar hyn o bryd y byddwn yn mantoli’r gyllideb, mae’n anodd mesur y risgiau canlynol a hithau’n gynnar yn y flwyddyn:

- Setliadau cyflog ar gyfer 2023/24
- Galw ar gronfeydd arian at raid ar gyfer ynni a gwasgfeydd chwyddiannol eraill.

Cedwir golwg fanwl ar y rhain yn y misoedd nesaf.

**6.2 Y Gwasanaeth Addysg a Phlant** – er bod pwysau ychwanegol o £2.7 miliwn wedi’i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2023/24, mae hwn yn dal yn faes sy’n peri pryder. Y sefyllfa derfynol a ragwelir ar hyn o bryd yw gorwariant o £1.853miliwn (£1.041m o’r blaen) oherwydd gwasgfeydd ym maes gofal cymdeithasol plant (£1.721 miliwn) ac yn y gwasanaethau Addysg (£132,000). Mae a wnelo’r symudiad y mis hwn yn bennaf â chostau lleoliadau newydd.

**6.3 Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Digartrefedd** – er bod pwysau ychwanegol o £8.187 miliwn wedi’i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2023/24, mae hwn yn dal yn faes sy’n peri pryder. Y sefyllfa derfynol a ragwelir ar hyn o bryd yw gorwariant o £1.793 miliwn (£2.152 miliwn o’r blaen) yn sgil pwysau o ganlyniad i gostau lleoli (£0.9 miliwn) a’r maes Digartrefedd (£0.9 miliwn). Mae’r gostyngiad ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion y mis hwn yn deillio o ostyngiad mewn galw ar ofal yn y cartref a defnyddio cronfeydd wrth gefn.

**6.4 Ysgolion** – Roedd y gyllideb a gymeradwyodd y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o £3.03 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd mewn grantiau Llywodraeth Cymru). Yr amcanestyniad

diweddaraf ar gyfer balansau ysgol i'w cario ymlaen i 2024/25 yw credyd net gwerth £1.848 miliwn, sy'n gyfwerth â gostyngiad o £7.091 miliwn yn y balans a ddygwyd ymlaen i 2023/24, sef £8.939 miliwn. Mae mwyafrif y symudiad yn bodloni'r disgwyliadau gan fod a wnelo'r balansau agoriadol uchel yn bennaf â derbyn cyllid untro i'w wario ar raglenni dal i fyny ac adfer mewn ysgolion. Bydd cydweithwyr Addysg a Chyllid yn gweithio'n agos i sicrhau y defnyddir y balansau hyn yn amserol ac effeithiol ac yn cadw golwg fanwl ar yr ysgolion sy'n rhagweld balansau diffyg. Mae tanwariant bychan o £162,000 ar gyllidebau ysgolion sydd heb eu dirprwyo.

**6.6 Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)**. Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio y bydd gostyngiad mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £792,000 o gymharu â £922,000 adeg cymeradwyo'r gyllideb. Mae a wnelo'r symudiad â gostyngiad yn incwm rhenti amcangyfrifedig, a gaiff ei gydbwyso gan gyfraniad is at raglen gyfalaf y CRT. Rhagwelir felly y bydd balansau'r CRT yn £776,000 ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Gyllideb Gyfalaf o £20 miliwn yn cael ei rhannu'n bennaf rhwng gwelliannau arfaethedig yn y stoc dai bresennol (£12 miliwn) a chaffaeliadau a datblygiadau tai newydd (£8 miliwn).

**6.7 - Rheoli'r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Medi, roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yn £277.152 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.35%. Roedd y balansau buddsoddi'n £11.7 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.69%.

**6.8** Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor i'w weld yn Atodiad 3. Mae'r Cynllun Cyfalaf cymeradwy yn £112.8 miliwn gyda'r gwariant hyd yma'n £32.6 miliwn. Mae Atodiad 4 yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf cyffredinol.

**6.9** Mae'r Grŵp Craffu Cyfalaf wedi adolygu a chefnogi achos busnes ar gyfer cyfleusterau storio halen newydd yn nepo Parc Cinmel ym Modelwyddan fel y nodir yn Atodiad 5, a'i argymell yn 3.2.

**6.10** Rhagwelir y bydd prosiect atgyweirio Wal yng Ngardd yr Arglwydd yn Nant Clwyd y Dre sy'n rhan o'r rhaglen gyfalaf (£525,000) yn gorwario o £249,000 (47%) oherwydd sawl elfen: estyniad i'r briff gwylio archeolegol oherwydd canfyddiadau Rhufeinig sylweddol, angorau ychwanegol a sgaffald i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd yn y wal sy'n weddill a gofynion iechyd a diogelwch arbenigol. Mae'r Grŵp Craffu Cyfalaf wedi adolygu a chefnogi'r gwariant a gynlluniwyd a bydd y gorwariant yn cael ei ariannu o'r gronfa wrth gefn gyffredinol o fewn y rhaglen gyfalaf, sy'n £578,000 ar hyn o bryd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Cyflwynwyd Asesiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor i'r Cyngor ar 31 Ionawr 2023.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, cyfarfodydd Briffio'r Cabinet, Arweinwyr Grŵp a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion wedi'i gynnwys wrth drafod y cynigion gydol y flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Mae proses y gyllideb ar gyfer 2024/25 yn cynnwys cynlluniau i ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae lefel sylweddol y gorwariant ar draws y gwasanaethau yn bryder mawr yn y flwyddyn bresennol ac ar gyfer y tymor canolig. Bydd angen i wasanaethau adolygu eu holl wariant ac incwm er mwyn lliniaru ar effaith y gorwariant yn eu cyllidebau. Fel y llynedd, bydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol yn adolygu'r sefyllfa gyffredinol wrth ystyried pa gamau penodol y mae'n ofynnol i'r gwasanaethau eu cymryd. Buddsoddwyd yn sylweddol yn y meysydd gwasanaeth penodol hyn dros y blynyddoedd diwethaf, a disgwylir y bydd yr angen am hynny'n parhau. Mae'r gwasgfeydd cychwynnol eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a bydd y rhain yn cael eu hadolygu; bydd y pwysau ar y gwasanaethau hyn yn cael ei adolygu dros y misoedd nesaf. Ymddengys bod yr arian a gedwir wrth gefn yn gorfforaethol yn ddigon i dalu am wasgfeydd ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol hon, ond efallai y bydd angen camau rheoli cadarnhaol er mwyn cwtogi ar wariant yn ystod y flwyddyn os bydd risgiau a gwasgfeydd eraill yn y misoedd sydd i ddod.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Mae’n dal yn gyfnod ariannol heriol iawn ac mae’r materion gwasanaeth arbennig hyn, ynghyd â phwysau chwyddiant drwy’r holl wasanaethau, yn dod yn fwyfwy anodd eu hariannu wrth i’n cyllid fethu dal i fyny â’r pwysau o ran chwyddiant, gwasanaethau a demograffeg. Mae lefel y gwasgfeydd cyllidebol yn ystod y flwyddyn yn debygol o leihau lefel yr arian wrth gefn i lefel y bydd yn rhaid ei hailgyflenwi o fewn y broses gyllidebol ar gyfer 2024/25. Er bod y rhagolygon ariannol yn ansicr, mae gan y Cyngor broses gyllidebol gadarn sy’n helpu i nodi’r gwasgfeydd hyn a chanfod arbedion a dulliau ariannu a fydd yn helpu i gynnal cyflwr ariannol y Cyngor i’r dyfodol. Bydd y gwasgfeydd cyllidebol sylweddol yn ystod y flwyddyn yn lleihau lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor, a bydd hyn yn cael ei ystyried wrth bennu’r gyllideb.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.